# Menter Iaith Sir Caerffili – Prif Swyddog

**Manylion Swydd**

**Swydd Deitl:** Prif Swyddog
**Lleoliad:** Swyddfa'r Fenter yn Ystrad Mynach ond fe fydd yn ofynnol i deithio ar draws cymunedau Bwrdeistref Sirol Caerffili gyda chyfle i weithio o adref hefyd.

**Cyflogwr:** Menter Iaith Sir Caerffili

**Oriau:** 37 awr yr wythnos

**Gwyliau:** 28 diwrnod yn codi ar ôl 5 mlynedd yn ogystal â 3 diwrnod cwmni ychwanegol rhwng Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

**Cyflog:** £42,839 - £46,142 y flwyddyn

**Cynllun Pensiwn:** Rhoddir cyfraniad o 5% gan y Fenter i gynllun pensiwn y cwmni.

**Pwrpas y Swydd**
I reoli Menter Iaith Sir Caerffili yn strategol er mwyn cynyddu cyfleoedd ar draws cymunedau Bwrdeistref Sirol Caerffili i ddefnyddio'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd. Fe fydd yn ofynnol i ddatblygu'r gwaith hwn trwy bartneriaethau agos â mudiadau a sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Prif Gyfrifoldebau**
- arwain a rheoli datblygiad strategol Menter Iaith Sir Caerffili;
- rheoli a monitro datblygiad a pherfformiad staff;
- rheoli a chynnal cyllideb y Fenter;
- rheoli gweinyddiaeth a chyllid y swyddfa;
- llunio a chyflwyno adroddiadau cynnydd ar gynlluniau strategol y Fenter i Fwrdd Rheoli'r Fenter a chyllidwyr;
- cynnal y berthynas weithredol dda gyda'r prif gyrff ariannu megis Llywodraeth Cymru, Cyngor B.S. Caerffili, Cyngor Celfyddydau Cymru ac eraill;
- cyflwyno ceisiadau am nawdd i Lywodraeth Cymru, y cynghorau sir a chyllidwyr eraill gan adnabod ffynonellau nawdd perthnasol;
- datblygu partneriaethau gyda chyrff cyhoeddus, grwpiau cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol a phartneriaid eraill priodol;
- gweithredu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau'r Fenter fel y bo angen;
- gweithredu fel dolen gyswllt rhwng y staff a'r Bwrdd Rheoli;
- cynrychioli'r Fenter ar bwyllgorau sirol a chenedlaethol yn ôl y galw;
- codi proffil y Fenter yn sirol a chenedlaethol;
- sicrhau bod y Fenter yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynyddu cyfleoedd i bobl o bob oed gwrdd, dysgu a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- sicrhau cefnogaeth eang a thrawsbleidiol i amcanion y Fenter;
- arwain ar ddatblygu cymunedol i rymuso cymunedau Cymraeg yr ardal.

## Menter Iaith Sir Caerffili – Prif Swyddog

**Cyflawni'r Swydd**
Fe fydd y Swyddog yn atebol i Gadeirydd Menter Iaith Sir Caerffili yn ogystal â Bwrdd Rheoli'r Fenter o ran cyflawni'r prif gyfrifoldebau fel yr uchod.

Fe fydd gofyn i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau ar adegau, yn ogystal â theithio i gyfarfodydd, cynadleddau ac ymweld â mudiadau eraill.

Fe fydd y Swyddog yn ymwybodol o iechyd a diogelwch ei hunan ac eraill, ac yn ymrwymo i ddilyn polisïau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y Fenter.

Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn gweithredu Polisi Cyfleoedd Cyfartal. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r bobl y bydd y Swyddog mewn cyswllt â nhw a'r ffordd y maen nhw'n cyflawni eu gwaith. Mae'r Fenter yn gweithio gyda nifer o bobl sydd â chyfleoedd cyfyngedig oherwydd eu dewis iaith, ac fe fydd dulliau o herio a datrys y sefyllfa hon yn dylanwadu ar y gwaith.

**Y Person sy'n Cyflawni'r Gwaith**

| Manyleb Person | Angenrheidiol neu Dymunol |
|---|---|
| **Profiad** | |
| Profiad o reoli neu weithio ar lefel uwch o fewn sefydliad neu ar brosiectau mawr, yn ddelfrydol yn y trydydd sector neu'r sector gyhoeddus | A |
| Profiad o weithio ar lefel broffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg | A |
| Profiad o reoli, arwain a datblygu staff | A |
| Profiad o ysgrifennu bidiau a cheisiadau am grantiau a rheoli cyllidebau | D |
| Profiad o weithio yn y maes cynllunio ieithyddol neu ddatblygu cymunedol | A |
| **Sgiliau a Galluoedd** | |
| Sgiliau llafar ac ysgrifenedig yn y Gymraeg a Saesneg o safon uchel iawn | A |
| Y gallu i gynllunio a rheoli prosiectau | A |
| Y gallu i weithredu yn annibynnol heb arolygaeth | A |
| Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig | A |
| Sgiliau rhyngbersonol ardderchog a'r gallu i weithio gyda thrawstoriad eang o randdeiliaid yn effeithiol | A |
| Sgiliau trefnu o'r safon uchaf o ran amser, prosiectau a digwyddiadau. | A |
| Y gallu i recriwtio, arolygu a chefnogi staff | A |

## Menter Iaith Sir Caerffili – Prif Swyddog

| | |
|---|---|
| Y gallu i adnabod cyfleoedd i gynhyrchu incwm a mentergarwch | A |
| Y gallu i ddefnyddio meddalwedd TG amrywiol | A |
| Y gallu i fesur ac asesu data meintiol ac ansoddol | D |
| **Gwybodaeth a Deallusrwydd** | |
| Dealltwriaeth dda o ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys blaenoriaethau cenedlaethol ynghylch y Gymraeg | A |
| Hyderus wrth ddefnyddio'r we a dealltwriaeth o'r cyfryngau cymdeithasol amrywiol | D |
| Adnabyddiaeth o natur ieithyddol, economaidd a chymdeithasol yr ardal | D |
| **Addysg a Hyfforddiant** | |
| Gradd, neu gymhwyster addas a pherthnasol | A |
| Cymhwyster Rheoli | D |
| Trwydded Yrru lawn neu'r gallu i deithio ar draws Sir Caerffili ac i gyfarfodydd ar draws Cymru | A |

<u>**Ein Sgiliau Craidd**</u>

Mae gan bawb a gyflogir gan Menter Iaith Sir Caerffili'r sgiliau craidd canlynol:

| | |
|---|---|
| **Sgiliau craidd** | Y gallu i ffocysu ar y cwsmer<br>Y gallu i ffocysu ar ganlyniadau<br>Gweithredu fel rhan o dîm<br>Cyfathrebu'n effeithiol<br>Bod yn ymwybodol o ddiogelwch<br>Y gallu i ddatrys problemau<br>Gweithio'n effeithiol<br>Dangos esiampl dda |

Yn ogystal mae gan Bwrdd Rheoli Menter Iaith Sir Caerffili'r sgiliau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Cyfarwyddwyr** | Rheoli newid<br>Datblygu pobl<br>Ymwybyddiaeth fasnachol<br>Gweithredu fel partner<br>Gweithredu'n strategol |